Gweinyddiaeth Cyfiawnder

# Pennu'r Gyfradd Ddisgownt ar gyfer Anafiadau Personol Crynodeb Gweithredol o'r Ymatebion i'r Alwad am Dystiolaeth

Cyhoeddir yr ymateb hwn ar 15 Gorffennaf 2019

**Pennu'r Gyfradd Ddisgownt ar gyfer Anafiadau Personol**

Crynodeb Gweithredol o'r Ymatebion i'r Alwad am Dystiolaeth

Yr Arglwydd Ganghellor sy'n gyfrifol am bennu'r gyfradd ddisgownt, a ddefnyddir i benderfynu ar gyfandaliad yr iawndal a ddyfernir i hawlwyr sy'n dioddef o anaf personol difrifol.

Diwygiwyd y fethodoleg ar gyfer y broses o bennu'r gyfradd gan Ddeddf Atebolrwydd Sifil 2018, ac er mwyn llywio'r broses ar gyfer yr adolygiad cyntaf, cyhoeddodd y Weinyddiaeth Cyfiawnder Alwad am Dystiolaeth ym mis Rhagfyr 2018.

Ceisiwyd tystiolaeth ar y materion canlynol yn yr alwad er mwyn pennu'r gyfradd ddisgownt:

- Buddsoddiadau sydd ar gael i hawlwyr;
- Cyngor a ddarperir i hawlwyr ynghylch buddsoddiadau;
- Treth;
- Chwyddiant;
- Costau rheoli buddsoddiadau;
- Portffolios buddsoddi enghreifftiol; a
- Phethau eraill y dylid eu hystyried yn y broses hon.

Cyhoeddwyd y ddogfen 'Setting the Personal Injury Discount Rate: A Call for Evidence' ar y 6ed o Ragfyr 2018. Daeth cyfnod yr Alwad am Dystiolaeth i ben ar y 30ain o Ionawr 2019. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r ymatebion a ddaeth i law. Mae'r Weinyddiaeth yn ddiolchgar i'r holl sefydliadau ac unigolion sydd wedi rhannu eu harbenigedd a'u profiadau yn eu cyflwyniadau.

Ni chyhoeddwyd Asesiad o'r Effaith gyda'r Alwad am Dystiolaeth. Mewn ymateb i'r ymrwymiad a wnaed yn y ddogfen 'Personal Injury Discount Rate Response to the Report of the Justice Select Committee' rydym wedi paratoi asesiad o'r effaith i gyd-fynd â'r is-ddeddfwriaeth sy'n gweithredu'r gyfradd ddisgownt.

Derbyniwyd cyfanswm o 40 ymateb i'r ymgynghoriad. Allan o'r rhain, cafwyd 13 o'r diwydiant yswiriant, 14 o'r proffesiwn cyfreithiol, 6 gan gynghorwyr ariannol, 3 o'r sector iechyd, a 4 gan arbenigwyr eraill. Ceir trosolwg Saesneg manylach o'r ymatebion ar wefan gov.uk.

Mae'r Weinyddiaeth yn ddiolchgar iawn i'r rhai a ymatebodd i'r alwad am y deunyddiau a'r data a gyflwynwyd ganddynt. Yn ogystal ag ymatebion manwl i gwestiynau unigol, cyflwynwyd rhai deunyddiau defnyddiol iawn, yn cynnwys:

1. sylwebaeth ar yr egwyddorion a'r fethodoleg;
2. sylwadau cyffredinol am y defnydd o Orchymyn Taliadau Cyfnodol (PPOs);
3. tystiolaeth o broffiliau dienw hawlwyr unigol;
4. tystiolaeth o gyfansoddiad a pherfformiad portffolio (dienw) gwirioneddol;

5. adroddiadau a gomisiynwyd ar wahanol agweddau e.e. dadansoddi amodau'r farchnad fuddsoddi, rhagolygon economaidd cyffredinol y dyfodol.

Roedd yr ymarfer yn ddefnyddiol iawn yng nghyd-destun caniatáu i atebwyr gyflwyno data a deunydd sy'n adlewyrchu'r fethodoleg newydd y mae Deddf Atebolrwydd Sifil 2018 wedi'i chyflwyno ar gyfer pennu'r gyfradd.

Roedd y safbwyntiau a'r deunyddiau a gyflwynwyd yn aml yn adlewyrchu buddiannau cystadleuol a safbwyntiau gwahanol y rhai sy'n cynrychioli hawlwyr a diffynyddion. Maent wedi helpu i ddangos cymhlethdod y broses o bennu cyfraddau disgownt, o ran y llu o ffactorau a newidynnau economaidd sydd ar waith ac mae'n rhaid eu hystyried.

Yn dilyn yr Alwad am Dystiolaeth, cysylltodd yr Arglwydd Ganghellor ag Actiwari'r Llywodraeth a Thrysorlys ei Mawrhydi. Ystyriwyd eu dadansoddiad a'u cyngor ynghyd â'r data a'r deunyddiau a dderbyniwyd yn yr Alwad am Dystiolaeth.

Yn unol â'r amserlen statudol, cychwynnodd yr Arglwydd Ganghellor y broses o adolygu'r gyfradd 90 diwrnod ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol (19 Mawrth 2019). Mae'n rhaid cwblhau'r adolygiad o fewn 180 diwrnod. Daw'r gyfradd newydd i rym ar ddyddiad i'w bennu gan yr Arglwydd Ganghellor. Bydd y Llywodraeth, yn ogystal â chyhoeddi cyfradd newydd, yn cyhoeddi Datganiad o Resymau. Bydd y ddogfen hon yn nodi casgliadau'r Arglwydd Ganghellor a'r rhagdybiaethau a'r dyfarniadau a wnaeth wrth ddod i'w benderfyniad.

Bydd y gyfradd ddisgownt ar gyfer anafiadau personol a bennwyd ar ddiwedd y broses hon yn cael ei hadolygu o fewn pum mlynedd, gan ddechrau o'r diwrnod y daeth yr adolygiad hwn i ben. O dan y ddeddfwriaeth newydd, rhaid i'r Arglwydd Ganghellor, yn yr adolygiad nesaf, ymgynghori â phanel o arbenigwyr, a sefydlir ar gyfer yr adolygiad ac a gadeirir gan Actiwari'r Llywodraeth, ar y cyd â Thrysorlys ei Mawrhydi.

Gellir cael cyfieithiad Cymraeg llawn o 'Pennu'r Gyfradd Ddisgownt ar gyfer Anafiadau Personol: Crynodeb o'r Ymatebion' drwy gysylltu â'r cyfeiriad isod:

**Civil Law**
**Post Point 10.18**
**Ministry of Justice**
**102 Petty France**
**London SW1H 9AJ**

**E-bost: discountrate.evidence2018@justice.gov.uk**